***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2699 (Cy.231) (C.92)

# COMISIYNYDD POBL HŶN, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006

*Wedi'i wneud - - 10 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 23 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.** 14 Hydref 2006 yw'r diwrnod penodedig i adrannau 1 i 22 o'r Ddeddf ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

10 Hydref 2006

(**1**) 2006 p.30.
(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi'i wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(**3**)) ("*y Ddeddf*") ac mae'n gymwys i Gymru.

Mae'r Gorchymyn yn dwyn i rym ar 14 Hydref 2006 adrannau 1 i 22 o'r Ddeddf.

Daeth darpariaethau'r Ddeddf a oedd yn weddill i rym ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol.

(**3**) 2006 p.30.